

Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Cymuned Talyllychau yn Ysgol Gynradd Gymunedol Talyllychau ddydd Mawrth 7 Ionawr 2020 am 7.30 p.m.

Roedd yr aelodau canlynol yn bresennol: Janine Roberts (Cadeirydd) John Williams, Eifion Roberts, Marged Bowen, y Cynghorydd Sir Joseph Davies a Jane Morgan (Clerc). Ymddiheuriadau: Pauline George a Rhys Williams.

Nid nodwyd unrhyw Ddatganiadau o Fuddiant.

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn gywir.

Materion sy'n codi.

Datganiad o Falans y Cyfrif dyddiedig 17.12.2020. £2,731.15. Gwiriwyd gan Janine Roberts.

Hysbysiad o'r Praesept wedi dod i law ar 27.12.2019. £2,666.67.

Hysbysiad ynghylch sedd wag yn Swyddfa'r Cynghorydd Cymuned. Dim cais wedi dod i law gan neb ar gyfer cael ei ethol. Felly, Hysbysiad o Gyfetholiad dyddiedig 07.01.2020 i'w roi ar y ddau hysbysfwrdd ac ar y wefan. Dylai unrhyw un a fyddai'n gwneud cais am gael ei ystyried i'w gyfethol ar gyfer y sedd wag, neu'n gofyn am ragor o wybodaeth, gysylltu â'r Clerc erbyn 31.01.2020.

Toiledau Symudol ar y Maes Chwarae. Roedd ateb wedi dod i law gan Gyngor Sir Caerfyrddin yn rhoi gwybod eu bod yn delio â'r mater.

Cytunwyd i dalu'r canlynol:

Cyflog y Clerc £152.66.

Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi £38.00.

Yr argraffwyr J.W. Thomas. 6 x posteri Rheoliadau A4 ar gyfer Mynwent yr Eglwys. Cytunwyd bod £20.00 yn cael ei dalu i J. Morgan (Clerc), yn ad-daliad am dâl a wnaed i J.W. Thomas.

Zurich Municipal. Copïau o'r ddogfennaeth adnewyddu wedi cael eu hanfon ar e-bost at yr holl Gynghorwyr. Cytunwyd i dalu'r ffi adnewyddu o £501.36. Gallai'r swm yswiriant o £1,278.83 ar gyfer y Toiledau Symudol gael ei ddileu gan nad oeddent bellach yn gyfrifoldeb y Cyngor Cymuned. Y Toiledau Symudol i'w dileu hefyd o'r Rhestr Asedau.

Gohebiaeth.

Dosbarthwyd a thrafodwyd yr ohebiaeth ganlynol:

Cymru a'r Diwrnod VE – 8 Mai 2020.

Comisiynydd Heddlu a Throsedd Dyfed-Powys. Ymgynghoriad ar Braesept yr Heddlu 2020-21.

*Clerks & Councils Direct.*

Trafodwyd y llythyr a oedd wedi dod i law yn gwrthwynebu'r gwaith datblygu arfaethedig i ddau adeilad, sef Siop y Gof a'r Cartws ym Mlaenig Isaf, Talyllychau. Cytunwyd i anfon llythyr o gydnabyddiaeth.

Roedd hysbysiad wedi dod i law mai'r ffigur Band D ar gyfer y gymuned yn 2020-21 o ran Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen Treth Gyngor) (Cymru) 1995 fyddai £247.00.

Gofyniad Praesept 2020-21. Roedd yr ohebiaeth wedi cael ei hanfon ymlaen trwy e-bost at sylw'r Gynghorwyr. Roedd y gyllideb wedi cael ei hadolygu gan ddefnyddio Mantolen y flwyddyn flaenorol, ynghyd â'r Adroddiad Ariannol diweddaraf a'r gwariant a amcangyfrifid ar gyfer y flwyddyn a oedd i ddod. Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd y dylid gwneud cais am braesept o £10,000.

Nid oedd yna unrhyw fusnes arall a daeth y cyfarfod i ben tua 9.25 p.m. Byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ddydd Mawrth 4 Chwefror 2020 yn Ysgol Talyllychau.